

## Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion heddiw at nifer o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Erbyn hyn mae Heather Jones (Llansannan) wedi cael ei symud i'r Inffirmari, ac yno'n cael gofal hefyd y mae Edwin Jones (Peniel), Selwyn Davies (Nantglyn) a Iorwen Roberts (Llansannan). Bu i Morfudd Jones (Llanefydd) ac Ifor Glyn Efans (Hiraethog) hefyd dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty, ac mae eraill o'n plith wedi bod yn cael amrywiol driniaethau mewn gwahanol ysbytai. Parhawn i'w cofio i gyd yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau calonnog i Elwyn a Barbara Williams (Henllan) sydd wedi dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar.

Hyfryd hefyd yw cael llongyfarch Mari a Danny Jones (Henllan) ar enedigaeth mab, Eban William. Llongyfarchiadau hefyd i Manon a Will McNiece (Llanefydd) ar enedigaeth mab – Huw Elwy. Diolchwn gyda hwy am ddaioni Duw tuag atynt a dymunwn Ei fendith ar y ddau deulu.

## Cinio Jangl / Paned a Sgwrs

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Cinio Jangl yn ail-gychwyn yn Ffestri Llansannan dydd Mawrth nesaf, Tachwedd 29<sup>ain</sup> am 12:00. Pris cinio a phwddin fydd £3.00. Enwau i Olwen (01745) 870249 erbyn bore Llun, Tachwedd 28<sup>ain</sup>, os gwelwch yn dda.

Y dydd Mawrth canlynol (Rhagfyr 6<sup>ed</sup>), bydd 'Paned a Sgwrs' a 'Chinio Jangl' yn uno hefo'i gilydd yn y Ffestri i gael Cinio Nadolig am 12:00 pryd y bydd bwffe wedi ei baratoi am bris o £7.00 yr un. Os nad ydych eisoes wedi rhoi eich enw, cysylltwch ag Olwen (870249), Hafwen (870292) neu Sian (870230) erbyn dydd Iau, Rhagfyr 1<sup>af</sup> os gwelwch yn dda.

Y bwriad bob mis yw cynnal 'Paned a Sgwrs' ar y dydd Mawrth cyntaf am 1:30 y prynhawn a 'Chinio Jangl' bob dydd Mawrth arall am 12:00. Croeso cynnes i bawb.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Rhagfyr 7<sup>fed</sup>, os gwelwch yn dda.)

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 27 Tachwedd 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Oeddech chi'n un o'r miliynau fu'n gwylio'r gêm nos Lun diwethaf? Hyd yn oed os nad ydych yn dilyn pêl droed, gallaf ddychmygu iddi fod bron yn amhosib osgoi'r holl sôn fu am ymddangosiad cyntaf Cymru yng Nghwpan y Byd ers 1958. Y bwletinâu newyddion, rhaglenni dogfen, Yma o Hyd yn cael ei chanu'n ddi-ddiwedd, ac wedi'r holl ddisgwyl, daeth y foment hanesyddol. Hen Wlad Fy Nhadau yn cael ei bloeddio yn Qatar ac i ffwrdd â ni! Sut oeddech chi'n teimlo?

Rhyw chwarter awr wedi'r gic gyntaf roeddwn i'n ddigon fflat (i gyd-fynd â pherfformiad di-fflach hanner cyntaf Cymru!) Ar ôl i'r holl heip dawelu sylweddolais fy mod wedi gwylio cannoedd o gemau pêl droed dros y blynyddoedd, a bod hynny fwy nag unwaith wedi arwain at siom! Ym mhob agwedd o fywyd gall edrych ymlaen gormodol at ryw beth arwain at siom pan nad yw'r realiti'n cyd-fynd â'n disgwyliaid. Neu ar y pegwn arall, gallwn gael ein siomi ar yr ochr orau gyda'r hyn sy'n digwydd oherwydd bod ein disgwyliaid mor isel! (Dwi ddim yn cyfeirio at unrhyw gefnogwyr penodol!)

Wrth i dymor yr Adfent gychwyn y Sul yma, byddwn yn clywed llawer am ddyfodiad Crist i'n byd, ac os yw 64 mlynedd o ddisgwyl am Gwpan y Byd yn teimlo'n hir, dychmygwch yr edrych ymlaen yn Israel am y Meseia hir ddisgwylidig! Yn ystod gweinidogaeth ddaearol Iesu gwelwyd ymatebion tra gwahanol iddo. Bu rhai yn barod i adael popeth i'w ddilyn Ef (Luc 5:28), ond dyfarniad Ioan oedd: 'Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono.' (Ioan 1:11).

Mae'n hawdd edrych yn feirniadol ar y rhai a wrthododd Iesu yn y Testament Newydd, ond sut ydym ni wedi ymateb i ddyfodiad Mab y Dyn? Efallai nad ydym yn ei wrthwynebu'n gyhoeddus, ond gall ein calonnau fod yn gyndyn iawn i edifarhau ac ildio Iddo wrth i ni wynebu gwahanol heriau a themtasiynau. Neu efallai mai siom sy'n pwysu arnom – siom o orfod delio ag amgylchiadau anodd nad oeddem erioed wedi disgwyl iddynt ddod i'n rhan.

Erbyn diwedd y gêm nos Lun, roedd fy siom wedi pylu'n sylweddol – ac nid oherwydd unrhyw beth yr oeddwn i wedi ei wneud! Beth bynnag yw'n cyflwr ar hyn o bryd, mae'r Efengyl yn ein cymell i droi'n golwg mewn ffydd at Iesu a gadael i'r gwirionedd amdano siapio ein disgwyliaid. 'Er mwyn y llawenydd oedd o'i flaen, fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth, ac y mae wedi eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Meddylwch amdano ef, a oddefodd y fath elyniaeth ato'i hun gan bechaduriaid, rhag i chwi flino na digalonni.' (Hebreaid 12:2-3)

Rhodri

## Cyhoeddiadau'r Fro

### Dydd Sul, Tachwedd 27<sup>ain</sup>

- **Bore Bro Aled** – Oedfa i holl deuluoedd y Fro yng Nghapel Saron am 10:30. Croeso cynnes i bawb.
- Bydd **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00 y prynhawn.
- **'Gwreiddiau'** – Cwis Pob Oed ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Bydd casgliad arbennig i gefnogi gwaith Tearfund yn ystod y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

### Dydd Mawrth, Tachwedd 29<sup>ain</sup>

- **Cinio Jangl** yn ail-gychwyn yn Festri Llansannan am 12:00 (gweler y dudalen gefn am fwy o fanylion).
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

### Dydd Iau, Rhagfyr 1<sup>af</sup>

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhwch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

### Dydd Gwener, Rhagfyr 2<sup>il</sup>

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

### Dydd Sadwrn, Rhagfyr 3<sup>ydd</sup>

- **Hwyl yr Ŵyl** (7-11 oed) yng Ngholeg y Bala o 10:00 – 5:30 pryd byddwn yn dathlu geni Iesu, yn cael gemau gwirion, crefft, disgo tawel, ffynnon sioced a llawer mwy! Archebwch le ar-lein: [www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg](http://www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg) neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen i archebu lle. Pris: £12, yn cynnwys cinio.

### Dydd Sul, Rhagfyr 4<sup>ydd</sup>

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa Gymun yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri pryd bydd Llio Jones (Llanefydd) yn cael ei derbyn yn aelod cyflawn yn yr eglwys.
- Bydd **Ysgol Sul yn Llanefydd** am 10:00 ac **yn Henllan** am 10:30.

### Dydd Mawrth, Rhagfyr 6<sup>ed</sup>

- Bydd **'Paned a Sgwrs'** a **'Chinio Jangl'** yn uno hefo'i gilydd yn Festri Llansannan am 12:00 i gael Cinio Nadolig (gweler y dudalen gefn am fwy o fanylion).
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 7:00 yr hwyr pryd y bydd Llywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Ioan Rhys Jones, yn ein hannerch, ac yna fe'n harweinir at Fwrdd y Cymun gan y Parch D. Marc Morgan.

### Dydd Iau, Rhagfyr 8<sup>fed</sup>

- **NI FYDD Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn cael ei gynnal heddiw.

### Dydd Sul, Rhagfyr 11<sup>eg</sup>

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri a bydd Leah Davies (Nantglyn) yn cael ei derbyn yn aelod cyflawn yn yr eglwys.
- Bydd **Ysgol Sul yn Llanefydd ac yn Henllan** am 10:00.

### Oedfa Garolau Eglwysi Bro Aled

yng  
Nghapel Coffa Henry Rees,  
Llansannan

Nos Sul, Rhagfyr 11<sup>eg</sup>  
am 6.00 yr hwyr

*Bydd paned a mins pei i bawb i ddilyn.*

Croeso cynnes i bawb!



### Sylwch!

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi eleni, felly cofiwch anfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer wythnos gyntaf y flwyddyn newydd erbyn Rhagfyr 7<sup>fed</sup>, os gwelwch yn dda.